




2^{il} Gynllun Datblygu
Lleol Newydd Cyngor
Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2035

Cytundeb Cyflenwi

*Wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth
Cymru ar 17 Mehefin 2021*



Cynnwys

Rhestr Termau

Diffiniad o Dermau

Rhan 1 – Cyflwyniad	1
----------------------------	----------

Rhan 2 – Amserlen	5
--------------------------	----------

Rhan 3 – Cynllun Cyfranogiad Cymunedol	9
---	----------

Atodiad 1 – Amserlen Fanwl ar gyfer proses Diwygio'r CDLI

Atodiad 2 – Asesu Risg

Atodiad 3 – Rhestr o Ymgylgoreion

Rhestr Termiau

2il CDLI Newydd	Ail Gynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2035
CDLI Mabwysiedig	Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021
CCG.....	Cynllun Cyfranogiad Cymunedol
CC	Cytundeb Cyflenwi
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 yr Undeb Ewropeaidd
ARhC	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
GCI	Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig
ACGC	Adroddiad Cychwynnol Gwerthuso Cynaliadwyedd
CDLI.....	Cynllun Datblygu Lleol
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
CLILI	Cynllun Llesiant Lleol
PPW	Polisi Cynllunio Cymru
BGC.....	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Adroddiad Adolygu.....	Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SEWSPG	Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru
CCA	Canllaw Cynllunio Atodol
GC	Gwerthusiad Cynaliadwyedd
AGC.....	Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd
Deddf WBFG	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Diffiniad o Dermau'r Cynllun Datblygu Lleol

Term	Definition
Mabwysiadu	Cam olaf y gwaith o baratoi'r 2 ^{il} CDLI Newydd lle bydd yr 2 ^{il} CDLI Newydd yn cael ei gadarnhau fel y cynllun datblygu statudol ar gyfer yr ardal mae'n ei chwmpasu.
Gwaelodlin	Disgrifiad o gyflwr presennol ardal.
Safleoedd Ymgeisiol	Safle sydd wedi'i enwebu gan unigolyn sydd â diddordeb mewn tir (h.y. tirfeddiannwr, datblygwr, asiant neu aelod o'r cyhoedd) i'w ystyried i gael ei gynnwys yn yr 2 ^{il} CDLI Newydd.
Cymuned	Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac sydd felly'n ffurfio cymunedau o ddiddordeb.
Consensws	Proses drafod gynnar gyda grwpiau diddordeb wedi'u targedu i ddeall safbwyntiau perthnasol a sicrhau cytundeb drwy drafodaeth.
Ymgynghoriad	Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar fater neu ddogfen benodol.
Cyngor	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Adneuo	Cyfnod chwe wythnos statudol lle gall unigolion a sefydliadau wneud sylwadau ar yr 2 ^{il} CDLI Newydd. Bydd sylwadau sy'n gysylltiedig â pha mor 'gadarn' yw'r cynllun yn cael eu hystyried wedi hynny gan Arolygydd yn ystod yr archwiliad i'r cynllun.
A Wnaed yn Briodol	Sylwadau, ysgrifenedig, ar yr 2 ^{il} CDLI Newydd a wneir yn y dull cywir ac o fewn y cyfnod o amser ymgynghori a nodwyd. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd yn yr Archwiliad i'r 2 ^{il} CDLI Newydd.
Ymgysylltiad	Y broses sy'n ceisio cynnwys y gymuned yn rhagweithiol yn y gwaith o baratoi'r 2 ^{il} CDLI Newydd (gellir cyfnewid hyn gyda "Cyfranogiad").
Sylfaen Dystiolaeth	Gwybodaeth a data sy'n darparu'r sail ar gyfer paratoi gweledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion y CDLI ac sy'n cyfiawnhau cadernid dull polisi'r CDLI.
Archwiliad	Y broses ffurfiol o ystyried a yw'r 2 ^{il} CDLI Newydd yn bodloni'r profion cadernid ac y gall y Cyngor ei fabwysiadu'n ffurfiol. Mae'r broses yn cael ei chadeirio gan Arolygydd Cynllunio annibynnol.
Partïon â Diddordeb	Unrhyw berson, grŵp, sefydliad neu gwmni sy'n awyddus i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r 2 ^{il} CDLI Newydd.
Cyfranogiad	Y broses sy'n ceisio cynnwys y gymuned yn rhagweithiol yn y gwaith o baratoi'r 2 ^{il} CDLI Newydd (gellir cyfnewid hyn gydag "Ymgysylltiad").
Awdurdodau Cynllunio Lleol	Cynghorau Lleol a Pharciau Cenedlaethol â phwerau cynllunio.
Amcan	Datganiad o'r hyn sy'n cael ei geisio neu sy'n cael ei gynnig i'w gyflawni.
Cyfranogi	Y broses lle bydd rhanddeiliaid yn rhyngweithio gyda llunwyr y cynllun.
Cyn-adneuo	Camau paratoi ac ymgynghori ar yr 2 ^{il} CDLI Newydd hyd at a chan gynnwys yr ymgynghoriad ar y ddogfen Strategaeth a Ffeirir.
Adroddiad yr Ymgynghoriad	Dogfen sy'n trafod y sylwadau a gyflwynwyd a'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt.
Sylwadau	Sylwadau a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'r 2 ^{il} CDLI Newydd sydd naill ai'n ei gefnogi neu'n ei wrthwynebu.
Cadernid	Y cysyniad y profir y cynllun yn ei erbyn i benderfynu a all y cyngor ei fabwysiadu. Ystyrir cadernid drwy 3 phrawf a ddefnyddir gan yr Arolygydd annibynnol ar gyfer yr 2 ^{il} CDLI Newydd drwy ei archwilio.
Rhanddeiliaid	Unrhyw berson, grŵp, sefydliad neu gwmni y mae eu buddiannau'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan 2 ^{il} CDLI Newydd neu sy'n cyfranogi drwy broses ymgynghori'r 2 ^{il} CDLI Newydd.
Cyflwyno	Y weithred ffurfiol o anfon dogfennau at Lywodraeth Cymru yn ystod camau allweddol o baratoi'r cynllun.
Amserlen	Mae'n pennu'r amserlen ar gyfer cyflawni'r 2 ^{il} CDLI Newydd, gan gynnwys y dyddiadau y disgwylir i gamau a phrosesau allweddol paratoi'r 2 ^{il} CDLI Newydd gael eu cwblhau.

Rhan 1 - Cyflwyniad

- 1.1 Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Cyngor Bwrdeistref Caerffili hyd at 2021 (CDLI Mabwysiedig) ac mae'r canfyddiadau wedi'u cyflwyno yn Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021 (Adroddiad Adolygu). Mae'r Adroddiad Adolygu yn darparu trosolwg o'r materion sydd wedi'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu ac sy'n nodi wedi hynny unrhyw newidiadau y mae'n debygol y bydd angen eu gwneud i'r CDLI Mabwysiedig. Mae'n datgan y dylai'r Cyngor ddechrau ar ddiwygiad llawn ar unwaith o'r CDLI Mabwysiedig.
- 1.2 Mae'r CDLI Mabwysiedig yn parhau i fodoli a bydd yn parhau i ddarparu'r fframwaith polisi ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio tra bo 2il Gynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili Newydd hyd at 2035 (2il CDLI Newydd) yn cael ei baratoi.

Y cam cyntaf wrth baratoi'r 2il CDLI Newydd yw paratoi Cytundeb Cyflenwi (CC). Paratowyd y Cytundeb Cyflenwi hwn yn ystod pandemig byd-eang COVID-19. Bydd y Cyngor yn cadw at Reoliadau'r Llywodraeth ynghylch COVID-19; mae hyn yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol a chwilio am ddulliau arloesol o ymgynghori yn ystod y cyfnod hwn. Os bydd cyfleoedd ychwanegol yn codi yn ystod y broses o baratoi'r cynllun, yn enwedig lle mae cyfyngiadau'n cael eu codi, bydd y Cyngor yn ymdrechu i ymateb i'r rhain.

Diben Cytundeb Cyflenwi

- 1.3 Mae paratoi Cytundeb Cyflenwi (CC) yn ofyniad allweddol wrth baratoi 2^{il} Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2035 (2^{il} CDLI Newydd). Mae'r ddogfen hon yn darparu manylion y camau sy'n gysylltiedig â'r broses o lunio'r Cynllun, yr amser y mae pob rhan o'r broses yn debygol o'i chymryd a'r adnoddau y bydd y Cyngor yn eu hymrwymu i baratoi'r Cynllun. Bydd y CC hefyd yn sefydlu dull llawn a pharhaus y Cyngor ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol yn y gwaith o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd.
- 1.4 Mae'r CC yn ffurfio rhan bwysig a chyfreithiol o'r gwaith o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd, a bydd y broses o'i gyflenwi yn unol â'r CC yn ffurfio prawf pwysig o 'gadernid' y cynllun. Felly, mae cynnwys y CC a'r ffordd y mae'r Awdurdod Lleol yn ei weithredu, yn hollbwysig i lwyddiant cyffredinol yr 2^{il} CDLI Newydd.
- 1.5 Mae'r CC yn cael ei rannu'n ddwy ran:

- **Yr Amserlen ar gyfer cynhyrchu'r 2^{il} CDLI Newydd**

Mae hyn yn darparu syniad o pryd y bydd gwahanol gamau'r broses o baratoi'r cynllun yn digwydd. Darperir dyddiadau diffiniol hyd at y cam adneuo a dyddiadau dangosol ar gyfer y camau diweddarach. Darperir yr amserlen yn Rhan 2 y CC hwn.

- **Y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol (CCC).**

Mae'r Cynllun hwn yn cyflwyno egwyddorion, strategaeth a phrosesau'r Cyngor ar gyfer ymgysylltiad cynnar, llawn a pharhaus y gymuned a rhanddeiliad trwy'r broses adolygu gyfan. Mae hyn yn elfen sylfaenol o'r system datblygu cynllun. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned sydd wedi'u nodi yn y CCC. Mae'r CCC wedi'i gynnwys yn Rhan 3 y CC hwn.

Camau Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi

- 1.6 Wrth ddatblygu'r 2^{il} CDLI Newydd, bydd y Cyngor yn:

- Paratoi CC Drafft (y ddogfen hon).
- Ymgynghori ar y CC Drafft gyda rhanddeiliaid allweddol ac adolygu'r CC yn briodol.
- Sicrhau Cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer y CC wedi'i ddiweddaru.
- Cyflwyno'r CC i Lywodraeth Cymru er mwyn cael cytundeb arno.
- Ar ôl sicrhau cytundeb Llywodraeth Cymru, cyhoeddi'r CC ar wefan y Cyngor bydd yn cael ei osod yn nerbynfa'r adran Gynllunio, canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid / llyfrgelloedd ar draws y fwrdeistref sirol.
- Adolygu'r CC yn chwarterol yn erbyn cynnydd ar y gwaith o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd.

Paratoi'r 2^{il} CDLI Newydd

- 1.7 Wrth baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd, ac yn unol â Chanllaw CDLI Llywodraeth Cymru (Argraffiad 3, 2015), bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r amcanion allweddol canlynol:
1. Cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o ansawdd sy'n seiliedig ar y Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Creu Lleoedd Cynaliadwy, wedi'u halinio â pholisi cenedlaethol (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru) wedi'u hintegreiddio ag Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG)/Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), gan gynnwys y Gymraeg a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
 2. Bod yn seiliedig ar gyfranogiad cynnar, effeithiol ac ystyrlon gan y gymuned er mwyn deall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r nod o greu consensws eang ar y strategaeth ofodol, y polisïau a'r cynigion.
 3. Bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth maes(meysydd) gan gynnwys y cysylltiadau swyddogaethol â meysydd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol.
 4. Bod yn benodol drwy gael cynlluniau sy'n nodi'n glir sut y bydd eu maes yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnesau.
 5. Dangos gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd (gan ddefnyddio Amcanestyniadau Hinsawdd diweddaraf y DU, data asesu perygl llifogydd a bregusrwydd) a chefnogi'r newid i gymdeithas carbon isel yn unol â'r targedau a'r cyllidebau lleihau carbon diweddaraf fel y'u nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2). Rhaid cadw at egwyddorion Creu Lleoedd, yr Hierarchiaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchiaeth Ynni fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.
 6. Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth berthnasol arall.
 7. Cyflawni'r hyn a fwriedir drwy gynlluniau ymarferol a hyfyw, gan ystyried y gofynion seilwaith angenrheidiol, hyfywedd ariannol a ffactorau eraill yn y farchnad.
 8. Bod yn rhagweithiol ac yn ymatebol gyda chynlluniau, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf a bod yn hyblyg os bydd newid.
- 1.8 Bydd yr 2^{il} CDLI Newydd yn cael ei baratoi gan roi ystyriaeth i ystod eang o ddeddfwriaethau, polisïau a mentrau eraill ar lefel Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd y Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer 2018-2023 'Y Gaerffili a Garem' yn bwysig iawn ar lefel leol. Mae hyn yn ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Caerffili a bydd cysylltiadau clir gyda'r 2^{il} CDLI Newydd pan fydd yn gysylltiedig â chynllunio defnydd tir.

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol

- 1.9 Mae darpariaethau Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor asesu'r effeithiau arwyddocaol y gallai ei gynllun eu cael ar yr

amgylchedd. Yn ogystal, mae Adran 62 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal Gwerthusiad Cynaliadwyedd o'i gynllun. Fel mater o arfer da, mae'r prosesau AAS a GC wedi'u cyfuno yn un broses AAG/GC iteraidd. Roedd y broses AAG/GC yn rhan iteraidd o'r broses o baratoi'r CDLI Mabwysiedig ac fe'i hadlewyrchir yng nghynigion a pholisïau'r Cynllun.

- 1.10 Bydd y Cyngor yn parhau i fabwysiadu'r broses AAG/GC wrth baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth arall wedi cyflwyno gofynion asesu ychwanegol y dylid mynd i'r afael â hwy hefyd fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun, e.e. asesu'r effaith ar iechyd, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn cynnal Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (GCI), sy'n cyfuno'r broses AAG/GC gyda'r asesiadau gofynnol eraill fel rhan o baratoi'r cynllun diwygiedig. Bydd y GCI yn sicrhau bod y cynllun diwygiedig yn fewnol gyson gyda materion economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol ochr yn ochr â materion perthnasol eraill. Bydd y broses werthuso'n cael ei chynnal ochr yn ochr â'r gwaith o baratoi'r cynllun.
- 1.11 Bydd y GCI yn cynnwys y dogfennau cam canlynol:
- **Yr Adroddiad Cwmpasu.** Bydd hyn yn disgrifio cyflwr presennol yr amgylchedd a bydd yn nodi'r materion cynaliadwyedd presennol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn darparu gwybodaeth gwaelodlin ar gyfer asesu a monitro drwy gyfres o Amcanion a Fframwaith Cynaliadwyedd. Bydd hefyd yn nodi adolygiad o gynlluniau, polisïau, rhaglenni a strategaethau perthnasol ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol a lleol, gan nodi'r goblygiadau ar gyfer proses yr 2^{il} CDLI Newydd.
 - **Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Cychwynnol (AGCC).** Bydd hyn yn ystyried effeithiau tebygol Strategaeth a Ffeirir, nodau ac amcanion ar gyfer yr 2^{il} CDLI Newydd. Bydd hefyd yn ystyried effeithiau unrhyw strategaethau eraill rhesymol. Bydd yr AGCC yn cael ei gyhoeddi'r un amser â'r Strategaeth a Ffeirir.
 - **Yr Adroddiad Amgylcheddol.** Bydd hyn yn ystyried effeithiau tebygol fersiwn Adneuo'r 2^{il} CDLI Newydd. Bydd yn asesu'r effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n debygol o ddeillio o'r Polisïau a'r dyraniadau a gyflwynir yn y cynllun. Cyhoeddir hyn yr un amser â'r Cynllun Adneuo.
 - **Y Datganiad Mabwysiadu.** Datganiad a gyhoeddir gan y Cyngor sy'n nodi sut yr ystyriwyd y GCI. Cyhoeddir y datganiad Mabwysiadu ar ôl i'r 2^{il} CDLI Newydd gael ei Fabwysiadu.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

- 1.12 Yn unol â Chyfarwydddeb Cynefinoedd 92/43/EEC, mae angen asesu effeithiau unrhyw gynllun defnyddio tir ar amcanion cadwraeth unrhyw safle a ddiogelir dan gyfraith Ewrop drwy Asesiad Priodol. Bydd yr ARhC yn cael ei baratoi ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo a chaiff ei gyhoeddi gyda'r Cynllun Adneuo a'r Adroddiad Amgylcheddol.
- 1.13 There are two stages of HRA:
- Screening – To determine whether any of the conservation objectives of any European Site could be adversely affected;
 - Appropriate Assessment – Assessment of the plan proposals on the conservation objectives of all affected European sites.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WBFG)

1.14 Derbyniodd Deddf WBFG Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn ceisio gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru mewn cysylltiad â'r saith nod llesiant, ac mae hefyd yn cyflwyno pum ffordd o weithio. Mae'r saith nod llesiant yn berthnasol i:-

- Cymru Lewyrchus,
- Cymru Gydnerth,
- Cymru Iachach,
- Cymru sy'n fwy Cyfartal,
- Cymru o Gymunedau Cydlynus,
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu,
- Cymru sy'n Ffynnu ar Lefel Fyd-eang.

1.15 Y pum ffordd o weithio yw:

- Tymor Hir,
- Integreiddio,
- Gwella,
- Cydweithio, ac
- Atal.

1.16 O gofio mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor sylfaenol graidd y CDLI a'r (Asesiad Amgylcheddol Strategol), mae yna gysylltiadau clir rhwng y CDLI a Deddf WBFG. Un o ofynion y Ddeddf yw bod yn rhaid cynhyrchu Cynllun Llesiant Lleol. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Llesiant Lleol (CLILI) yn 2018 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2023. Bydd y Ddeddf WBFG a'r CLILI yn cael eu hystyried yn llawn trwy gydol cyfnod paratoi'r 2^{il} CDLI Newydd. Bydd yr Asesiad Llesiant yn ffurfio rhan o sylfaen dystiolaeth yr 2^{il} CDLI Newydd.

Tystiolaeth

1.17 Mae angen diweddarau'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys cynnal asesiadau amrywiol o'r sylfaen dystiolaeth trwy'r broses gyfan o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd. Ar y cam hwn, rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys:

- Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai
- Asesiad o Hyfywedd Tai Fforddiadwy
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
- Asesiad o Lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
- Adolygiad Economaidd Mwy na Lleol
- Adolygiad o Dir Cyflogaeth
- Asesiad Trafnidiaeth Strategol
- Arolwg Agweddau Siopwyr a dadansoddiad manwerthu
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy
- Adolygiad Ffin Anheddiad
- Asesiad Seilwaith Gwyrdd
- Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd
- Asesiad Mwynau a Gwastraff

1.18 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gallai gofynion ychwanegol ddod i'r amlwg o ran gofynion y sylfaen dystiolaeth wrth i'r adolygiad o'r cynllun fynd rhagddo.

Profion Cadernid

1.19 Un o rannau hanfodol system datblygu'r cynllun yw bod yr Arolygydd annibynnol a benodwyd yn gyfrifol am ystyried cadernid yr 2^{il} CDLI Newydd yn ei gyfanrwydd yn ystod yr Archwiliad o'r Cynllun. Dehongliad syml o "cadarn" yw ei fod yn "dangos barn dda" ac y

“gellir ymddiried ynddo”. Mae Canllaw'r CDLI (Argraffiad 2, 2015) yn darparu 3 maen prawf ar gyfer asesu 'Cadernid'. Y profion hyn yw:

- a. A yw'r Cynllun yn Ateb y Gofyn?
- b. A yw'r Cynllun yn Briodol?
- c. A fydd y Cynllun yn cyflawni?

- 1.20 Mae'r profion cadernid, yn rhannol, yn berthnasol i'r broses a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd, ei gysondeb, ei gydlyniant a'i effeithiolrwydd. I sicrhau nad yw amser yn cael ei wario yn archwilio'n fanwl cynllun nad yw'n gadarn yn weithdrefnol, bydd yr Arolygydd yn cynnal proses sgrinio gynnar o'r 2^{il} CDLI Newydd i sicrhau ei fod wedi'i baratoi yn unol â'r CC. Mae er budd y Cyngor, felly, i sicrhau bod y CC wedi'i ddilyn trwy'r broses gyfan o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd. Mae gan bob rhanddeiliad gyfrifoldeb hefyd yn y broses i'w hwyluso drwy gyflawni'r gofynion a roddir arnynt hwy.
- 1.21 Yn dilyn yr Archwiliad, bydd yr Arolygydd yn paratoi adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau a chasgliadau'r Arolygydd. Mae casgliadau'r Arolygydd yn rhwymo ac, oni fydd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, gall y Cyngor fabwysiadu'r cynllun, gan gynnwys argymhellion yr Arolygydd, neu benderfynu peidio â mabwysiadu'r cynllun.

Rhan 2 - Amserlen

- 2.1 Mae'r Cyngor wedi sefydlu amserlen ar gyfer cyflawni'r 2^{il} CDLI Newydd, ac mae wedi crynhoi'r camau allweddol o baratoi'r cynllun (Tabl 1). Er bod yr amserlen yn un heriol, mae'n darparu amserlen realistig ar gyfer paratoi'r 2^{il} CDLI Newydd, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Wrth baratoi'r amserlen, mae'n rhaid ystyried disgwyliad Llywodraeth Cymru y gellir paratoi cynllun diwygiedig o fewn tair blynedd a hanner. Ar ben hynny, mae'n ystyried y ffaith bod y CDLI Mabwysiedig yn dod i ben yn Rhagfyr 2021 ac mae angen dybryd i gynnal cwmplas y cynllun.
- 2.2 Mae'r amserlen yn Nhabl 1 wedi'i rhannu'n ddwy ran, y camau diffiniol a dangosol:
- Y Camau Diffiniol – Mae'r rhan hon o'r amserlen yn darparu gwybodaeth hyd at, ac yn cynnwys y cam Adneuo statudol. Mae cynnydd yr 2^{il} CDLI Newydd yn ystod y cyfnod hwn o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor, ac felly ystyrir bod y dyddiadau targed, er eu bod yn heriol, yn realistig a gwneir pob ymdrech i lynu at y dyddiadau hyn.
 - Y Camau Dangosol – Mae'r rhan hon o'r amserlen yn darparu ar gyfer y camau hynny o baratoi'r cynllun sydd y tu hwnt i'r cam Adneuo statudol. Mae'r camau hyn yn gynyddol ddibynnol ar amrediad eang o ffactorau allanol (e.e. y nifer o sylwadau a dderbynnir, nifer sesiynau gwrando'r archwiliad, yr amser a gymerir i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd), ac mae gan y Cyngor lawer llai o reolaeth dros hyn. Bydd y dyddiadau hynny yn cael eu hailystyried ar ôl cyrraedd y cam Adneuo pan fydd amseriadau diffiniol ar gyfer y camau sy'n weddill yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau cymeradwyaeth a'i gyhoeddi.

Tabl 1 – Camau allweddol wrth Baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd

Camau Allweddol	Amserlen
Cytundeb Cyflenwi	Tachwedd 2020 – Gorffennaf 2021 Ymgynghoriad 9 wythnos (25 Ionawr – 29 Mawrth, 2021) Cyflwyno'r CC Terfynol i'r Cyngor – Mehefin 2021 Cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn Mehefin 2021 (ymateb i'r ACLI i'w derbyn o fewn 4 wythnos)
Cyfranogiad Cyn-adneuo	Gorffennaf 2021 – Gorffennaf 2022 Adrodd i'r Cyngor ar y Strategaeth a Ffefrir a'r GCI – Mehefin 2022
Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (Cyn-adneuo)	Mehefin - Gorffennaf 2022 Strategaeth a Ffefrir – Ymgynghoriad 6 wythnos (gyda 2 wythnos ychwanegol ddewisol os oes angen) Adroddiad i'r Cyngor ar y Cynllun Adneuo drafft a'r ACI – Ionawr 2023
Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo Statudol	Chwefror - Mawrth 2023 Cynllun Adneuo – ymgynghoriad 6 wythnos (gyda 2 wythnos ychwanegol ddewisol os oes angen) Paratoi Adroddiad yr Adroddiad Ymgynghori i'r Cyngor ar Adneuo'r 2il CDLI Newydd a'r ACI i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio – Ionawr 2024
Camau Dangosol	
Cyflwyno'r 2^{il} CDLI Newydd i Lywodraeth Cymru	Chwefror 2024
Archwiliad Annibynnol	Mawrth - Hydref 2024
Adroddiad yr Arolygydd	Tachwedd 2024
Mabwysiadu	Rhagfyr 2024 (rhaid ei fabwysiadu o fewn 8 wythnos i dderbyn adroddiad rhwymol yr Arolygydd) Cyhoeddi Datganiad Mabwysiadu ACI

- 2.3 Mae cynllun prosiect manwl sy'n amlinellu'r amserlen ar gyfer pob cam o baratoi'r cynllun wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Adnoddau

- 2.4 Y Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio fydd yn gyfrifol am gyflenwi'r 2^{il} CDLI Newydd yn gyffredinol, gyda'r Arweinydd Tîm, Cynllunio Strategol yn gyfrifol am reoli'r prosiect o ddydd i ddydd. Bydd y Tîm Cynllunio Strategol yn arwain y gwaith o baratoi a chyflenwi'r 2^{il} CDLI Newydd gydag ymgysylltiad Aelodau ac adroddiadau gwleidyddol ar gamau priodol. Mae'r adnoddau staff presennol wedi'u cyflwyno yn Nhabl 2 isod. Bydd tua 90 i 95% o amser swyddogion yn cael ei ymrwymo i baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd. Bydd amser ychwanegol yn cael ei ymrwymo gan y Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio, y Pennaeth Adfywio a Chynllunio a'r Cyfarwyddwr Dros Dro, Cymunedau i sicrhau bod yr 2^{il} CDLI Newydd yn cael ei gyflenwi'n effeithlon. Bydd angen galw ar adnoddau staff o feysydd gwasanaeth eraill hefyd ar draws y Cyngor er mwyn helpu i gynnal y diweddariadau/asesiadau amrywiol o'r sylfaen dystiolaeth. Mae hyn yn debygol o gynnwys cymorth swyddogion gan: Rheoli Datblygiadau, Tai, Seilwaith, Addysg, Iechyd yr Amgylchedd, Cymunedol a Gwasanaethau

Hamdden, Polisi Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd a Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd angen mewnbwn sylweddol hefyd gan yr adran cymorth technegol ar gyfer paratoi dogfennaeth yr 2^{il} CDLI Newydd.

Tabl 2 – Adnoddau Staff y Tîm Cynllunio Strategol

Teitl Swydd Swyddogion	Nifer y swyddi
Arweinydd Tîm	1
Prif Gynllunydd	1.8
Swyddog Cynllunio	1
Cynllunydd Cynorthwyol	1

- 2.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen mewnbwn arbenigol ychwanegol hefyd i ddatblygu a sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn i hysbysu'r 2^{il} CDLI Newydd. Er y rhagwelir y bydd swm sylweddol o waith y sylfaen dystiolaeth yn cael ei wneud gan swyddogion CBSC, y Tîm Cynllunio Strategol yn bennaf, mae'n debygol y bydd angen defnyddio ymgynghorwyr allanol, yn arbennig mewn cysylltiad ag elfennau technegol neu arbenigol iawn o'r sylfaen dystiolaeth. Mae asesiad cychwynnol wedi'i gynnal o elfennau'r gwaith o baratoi'r cynllun sy'n debygol o fod angen mewnbwn gan ymgynghorwyr allanol ac mae'r Cyngor wedi cytuno ar adnoddau ariannol.
- 2.6 Mae'r CC wedi'i baratoi ar sail Cyngor yn paratoi ei CDLI ei hun, a hynny heb fod mewn cydweithrediad gyda, neu fel cynllun ar y cyd gyda Chynghorau eraill. Fodd bynnag, mae gweithio ar y cyd yn parhau ar lefel ranbarthol, yn arbennig mewn cysylltiad â pharatoi sylfeini dystiolaeth. Bydd cydweithio gydag awdurdodau cyfagos yn hollbwysig ar gyfer paratoi'r 2^{il} CDLI Newydd, yn arbennig o ran sylfaen dystiolaeth ar y cyd, pan fydd hynny'n briodol. Mae Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru yn gweithio tuag at gyfres o fethodolegau y cytunwyd arnynt yn ranbarthol ar gyfer meysydd pynciau allweddol, er mwyn sicrhau sylfaen dystiolaeth gyson ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn ogystal, mae Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd wedi nodi nifer o feysydd pynciau lle gellir, a lle maent, yn cael eu comisiynu ar y cyd.
- 2.7 Mae'r Cyngor wedi cytuno ar gyllideb i symud yr 2^{il} CDLI Newydd ymlaen i'w fabwysiadu o fewn yr amserlen ragnodedig. Rhagwelir y bydd hyn yn cwmpasu'r gwariant sy'n gysylltiedig â phob elfen o'r gwaith o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd a'i Archwilio.

Canllaw Cynllunio Atodol

- 2.8 Bydd yr 2^{il} CDLI Newydd yn cynnwys polisïau digonol i ddarparu'r sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mae gan y Canllaw Cynllunio Atodol rôl gefnogol bwysig yn darparu canllaw manylach neu ar safle penodol ar y ffordd y bydd polisïau'r 2^{il} CDLI Newydd yn cael eu cymhwyso. Er nad yw'r CCA yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu, dylai ddelio o, a bod yn gyson gyda'r 2^{il} CDLI Newydd. Dylai'r CCA hefyd groesgyfeirio'n glir hefyd y polisïau a'r cynigion mae'n ei hategu.
- 2.9 Ers mabwysiadu'r CDLI Mabwysiedig, mae nifer o ddogfennau CCA wedi'u paratoi a'u mabwysiadu i gefnogi polisïau'r CDLI Mabwysiedig.
- Tai Fforddiadwy
 - Coed a Datblygiadau
 - Safonau Meysydd Parcio
 - Adeiladu Lleoedd Gwell i Fyw
 - Datblygiadau Deiliaid Tai
 - Diogelu Mannau Agored
 - Adeiladau yng Nghefn Gwlad

- Blaenau Siopau a Hysbysebion
- Canllawiau Cynllunio ar gyfer Datblygiadau Tyrbinau Gwynt Graddfa Lai – Gofynion Asesiad Tirlun ac Effaith Weledol
- Datblygiad Tyrbinau Gwynt Graddfa Lai – Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirlun

- 2.10 Rhagwelir y bydd y pynciau CCA a restrir uchod yn parhau i fod yn angenrheidiol a pherthnasol, ac felly byddant yn cael eu cario ymlaen gydag unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen i gefnogi'r 2^{il} CDLI Newydd, a/neu'r sylfaen dystiolaeth sydd wedi'i diweddaru.
- 2.11 Er hynny, dylid nodi na ellir mabwysiadu CCA yr 2^{il} CDLI Newydd nes y bydd Adroddiad yr Arolygydd wedi'i dderbyn a'i bod yn amlwg nad oes unrhyw newidiadau i'r dull polisi a gyflwynir yn y cynllun diwygiedig. Ni ragwelir y bydd unrhyw CCA newydd/ychwanegol yn cael ei baratoi nac yn destun ymgynghoriad ochr yn ochr â'r 2^{il} CDLI Newydd, yn bennaf oherwydd yr amserlenni heriol.

Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC)

- 2.12 Cyflwynwyd Ardoll Seilwaith Cymunedol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2014, i helpu i gyflawni amcanion defnydd tir y cyngor fel y'u nodir yn y CDLI Mabwysiedig.
- 2.13 Bydd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei hadolygu ochr yn ochr â diwedd proses baratoi'r 2il CDLI Newydd.

Monitro ac Adolygu'r CC

- 2.14 Bydd y Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd yr 2^{il} CDLI Newydd yn rheolaidd yn erbyn gofynion y CA er mwyn sicrhau bod yr amserlen yn cael ei chyflawni a bod yr ymgysylltiad â'r cyhoedd, a nodir yn y CCG, yn cael ei gwblhau. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.8, mae'r amserlen yn caniatáu ychydig bach o hyblygrwydd, fodd bynnag, bydd unrhyw ddiwygiadau i'r CA yn gorfod cael eu cymeradwyo gan y Cyngor cyn sicrhau cytundeb Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd angen diwygio'r CA os bydd yr amgylchiadau canlynol, sydd y tu hwnt i reolaeth yr ACLI, yn digwydd wrth baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd:
- Newid arwyddocaol i'r adnoddau sydd ar gael i baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd.
 - Mae'r gwaith o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd y tu ôl i'r amserlen h.y. mwy na 3 mis.
 - Bydd unrhyw newidiadau arwyddocaol i ddeddfwriaeth Ewropeaidd, y DU neu Gymru yn cael effaith uniongyrchol ar y broses o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd.
 - Unrhyw newid arall i amgylchiadau a fydd yn cael effaith berthnasol ar y broses o gyflawni'r 2^{il} CDLI Newydd yn unol â'r CA.
 - Newidiadau arwyddocaol i'r CCG.
 - Digwyddiadau annisgwyl fel y pandemig COVID-19.

- 2.15 Cyflwynir amserlen wedi'i diweddaru i Lywodraeth Cymru ar ôl y cam Adneuo. Bydd hyn yn darparu mwy o eglurder ar yr amserlenni ar gyfer y camau sy'n weddill (h.y. disodli camau dangosol gyda chmau diffiniol). Bydd yr amserlen ddangosol yn cael ei hail-ddiffinio o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod adneuo ffurfiol a chaiff ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ei chymeradwyo.

Monitro ac Adolygu'r CDLI

- 2.16 Bydd y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blyneddol bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r 2il CDLI Newydd. Bydd hyn yn asesu pa mor effeithiol y mae polisiâu a chynigion y cynllun yn perfformio ac yn amlygu unrhyw angen am addasiadau. Bydd yr adroddiad monitro hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at Ganllawiau Cynllunio Cenedlaethol

newydd neu wedi'u diweddarau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Ar ôl ei gynhyrchu, bydd yr adroddiad monitro ar gael i'r cyhoedd i'w weld ar wefan y Cyngor.

- 2.17 Ar ôl mabwysiadu'r CDLI, bwriedir adolygu'r cynllun bob pedair blynedd.

Rheoli a Dadansoddi Risg

- 2.18 Er bod yr amserlen ar gyfer paratoi'r 2il CDLI Newydd yn realistig ac yn gyraeddadwy, cydnabyddir y bydd hefyd yn heriol iawn, yn enwedig gyda heriau pellach yn sgil y pandemig COVID-19. Cydnabyddir bod sawl ffactor a allai oedi'r gwaith o baratoi'r cynllun. O ganlyniad, mae Llawlyfr y CDLI (Argraffiad 3, 2020) yn rhoi hyblygrwydd drwy ganiatáu un llithriad tri mis, cyn bod angen diwygio'r CC yn ffurfiol. Mae Atodiad 2 yn amlinellu asesiad risg sy'n nodi materion posibl a allai achosi anawsterau o ran cadw at yr amserlen arfaethedig, ynghyd â dull arfaethedig y Cyngor o'u rheoli.

Rhan 3 – Cynllun Cyfranogiad Cymunedol

- 3.1 Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned leol a rhanddeiliaid a'u cynnwys wrth baratoi'r 2il CDLI Newydd. Mae'n hanfodol wrth baratoi'r 2il CDLI Newydd bod y bobl iawn yn cymryd rhan ar yr adeg iawn i geisio mwy o gonsensws a chryfhau cyfranogiad y gymuned yn y broses o lunio'r cynllun.
- 3.2 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3, yn nodi y dylai ACLlau, wrth baratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau:
- Creu'r amodau ar gyfer cyfranogiad ac adborth yn gynnar ar adeg pan all pobl helpu i lunio a dylanwadu ar y cynllun, yn seiliedig ar y 5 ffordd o weithio, fel y'u nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
 - Annog ymrwymiad yr holl gyfranogwyr i drafodaeth agored a gonest ar ddewisiadau datblygu realistig wrth geisio consensws eang.
 - Cydnabod yr angen i fabwysiadu dulliau/technegau ar gyfer cynnwys pob elfen o'r gymuned (grwpiau oedran, grwpiau gweithredu cymunedol lleol, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau nodweddion gwarchodedig) gan gynnwys busnesau, sy'n ceisio cynnwys y rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan.
 - Cydnabod na fydd un dull gweithredu sy'n addas i bawb yn briodol.
- 3.3 Mae'r Cyngor wedi paratoi ei Gynllun Cynnwys Cymunedau yn ystod y pandemig COVID-19 a bydd yn cadw at ganllawiau a Rheoliadau diweddaraf y Llywodraeth o ran gweithredu dulliau ymgynghori, megis rheolau ymbellhau cymdeithasol. Bydd yr ACLI yn ymdrechu i gynnwys y gymuned mewn ffyrdd arloesol a bydd yn parhau i adolygu'r dulliau wrth i'r cynllun gael ei baratoi.
- 3.4 Mae'r Cyngor wedi paratoi amserlen ar gyfer paratoi'r 2il CDLI Newydd (Rhan 2, Atodiad 1), y dylid ei darllen ar y cyd â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau.

Egwyddorion Ymgysylltu

- 3.5 Mae Strategaeth Drawsnewid *#TimCaerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd*, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mehefin 2019, yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu a gweithio gyda'n cymunedau fel un o'i phrif themâu.
- 3.6 Mae Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu drafft 2020-2025 yn nodi ein dull o wella ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach ar draws cymunedau bwrdeistref sirol Caerffili. Mae'n amlygu'r egwyddorion a'r safonau sy'n sail i ymgysylltu ac ymgynghori ystyrion er mwyn galluogi dull cyson, tryloyw o'r radd flaenaf o gynllunio a chynnal gwaith ymgysylltu â'r gymuned. Mae gan y Fframwaith hwn gysylltiadau uniongyrchol â sawl strategaeth arall, gan gynnwys Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019 – 2022 sydd wedi'i datblygu i helpu i ddiffinio'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'i breswylwyr, ei bartneriaid, ei fusnesau a'r holl gynulleidfaoedd allweddol eraill.
- 3.7 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru fel canllaw ar gyfer pob ymgysylltiad:
1. **Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth** - Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisiau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

2. **Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny** - Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.
3. **Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol** - Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.
4. **Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol** - Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.
5. **Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall** - Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.
6. **Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan** - Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.
7. **Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol** - Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.
8. **Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol** - Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.
9. **Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad** - Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.
10. **Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broseso ymgysylltu** - Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfraniad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol. Dylid rhannu gwersi a'u cymhwyso mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

- 3.8 O ran y cyd-destun ehangach, mae'r Fframwaith hwn hefyd yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig yr egwyddorion cynnwys a chydweithredu, a'r Ddeddf Cydraddoldeb sy'n cael ei hategu gan set benodol o ddyletswyddau Cymreig, ac un ohonynt yw cynnwys pobl y mae'n ystyried eu bod yn cynrychioli'r rhai â nodweddion gwarchodedig gwahanol sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.

Pwy y byddwn yn eu cynnwys?

- 3.9 Mae'r ACLI wedi ymrwymo i ymgysylltu ag unrhyw berson neu sefydliad sydd â diddordeb yn llunio dyfodol Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd yr 2il CDLI Newydd, ar ôl ei fabwysiadu, yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yn y Fwrdeistref Sirol a bydd yn offeryn gwneud penderfyniadau allweddol ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio. Felly, mae'r Cyngor yn annog unrhyw un sy'n dymuno mynegi eu barn, i wneud hynny fel rhan o'r gwaith o baratoi'r broses 2il CDLI Newydd.

- 3.10 Nodir y gofynion cyfreithiol ar gyfer cynnwys y gymuned a chyfranogiad y cyhoedd ar gyfer yr 2il CDLI Newydd yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2015). Mae'r Cyngor yn bwriadu bodloni a lle y bo'n bosibl, rhagori ar y gofynion hyn. Ceir rhestr o gyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol yn Atodiad 3.
- 3.11 Bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio cynnwys y partïon canlynol:
- Aelodau'r cyhoedd, unigolion â diddordeb a sefydliadau**
- 3.12 O ran y CDLI Mabwysiedig a'r CDLI Newydd a dynnwyd yn ôl, cynhaliodd y Cyngor gronfa ddata ymgynghori a oedd yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, unigolion â diddordeb, sefydliadau a chwmnïau a oedd wedi gofyn i dderbyn gwybodaeth yn ystod pob cam o'r broses CDLI. Prif ddiben y gronfa ddata hon oedd galluogi'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys ar restr ymgynghoreion Llywodraeth Cymru ar gyfer CDLI i gymryd rhan a derbyn gwybodaeth trwy'r broses CDLI gyfan.
- 3.13 Daeth Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) yr Undeb Ewropeaidd i rym ym mis Mai 2018, a oedd yn gosod cyfyngiadau newydd ar sut y gall sefydliadau gynnal a defnyddio data personol a diffinio hawliau mewn cysylltiad â'r data hwnnw. O ganlyniad i GDPR, ni allwn gysylltu â'r unigolion hynny a oedd wedi mynegi diddordeb ym mhroses y CDLI yn flaenorol. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu cronfa ddata newydd o randdeiliaid yn awr, o'r partïon sy'n awyddus i gymryd rhan yn y broses o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd.
- 3.14 Mae'n rhaid i unrhyw bartïon sydd â diddordeb roi eu cydsyniad, yn ysgrifenedig, os ydynt yn dymuno cael eu hychwanegu at gronfa ddata rhanddeiliaid yr 2^{il} CDLI Newydd. Ystyrir bod unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ar unrhyw un o gamau'r 2^{il} CDLI Newydd wedi rhoi eu cydsyniad a byddant yn cael eu hychwanegu at y gronfa ddata rhanddeiliaid er mwyn gweinyddu eu sylwadau ac er mwyn iddynt dderbyn gwybodaeth ddigonol am gyfleoedd pellach i gyfranogi ar ddyddiad diweddarach.
- 3.15 Rhoddir cyfle hefyd i ymatebwyr gadarnhau a ydynt yn dymuno gohebu yn Gymraeg neu Saesneg.
- 3.16 Os bydd unrhyw unigolyn, grŵp, sefydliad neu gwmni yn dymuno cymryd rhan yn y broses o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd, gallant wneud cais i gael eu hychwanegu at y gronfa ddata rhanddeiliaid drwy gofnodi eu manylion ar wefan y Cyngor. I'r rhai na allant gael mynediad at wefan y Cyngor, gallant gysylltu â'r Tîm Cynllunio Strategol drwy e-bost, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir ym mharagraff 3.34 er mwyn derbyn ffurflen i gyflwyno eu manylion a'u cydsyniad. O ystyried gofynion y GDPR, bydd y Cyngor ond yn gallu cynnwys manylion sydd wedi'u cyflwyno ar-lein neu ar y ffurflen a ddarparwyd. Ni all y Cyngor dderbyn manylion drwy e-bost, dros y ffôn neu mewn llythyr.
- Grŵp Ffocws y CDLI**
- 3.17 Er mwyn llywio proses yr 2^{il} CDLI Newydd, bydd y Cyngor yn sefydlu'r Grŵp Ffocws CDLI. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys Aelodau'r Cabinet, Aelodau o grwpiau'r gwrthbleidiau a Phenaethiaid Meysydd Gwasanaeth, a fydd yn hwyluso ymgysylltiad parhaus gydag uwch aelodau a swyddogion trwy'r broses gyfan o baratoi'r cynllun. Bydd y Grŵp Ffocws CDLI yn ymgysylltu drwy weithdai a chyfarfodydd penodol, lle y bo'n briodol.
- Aelodau Etholedig**
- 3.18 Mae cydnabyddiaeth y bydd cyfranogiad Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili trwy'r broses gyfan o baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd yn hollbwysig. Mae'r aelodau mewn sefyllfa unigryw, oherwydd nid yn unig maent yn cynrychioli'r cymunedau yn eu ward unigol, maent hefyd yn cynrychioli budd y cyhoedd ac maent yn cyfrannu at benderfyniadau er budd ehangach y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd. Felly, bydd gan yr Aelodau rôl allweddol ym mhroses yr 2^{il} CDLI Newydd drwy ddarparu gwybodaeth i breswylwyr lleol, ein hysbysu

am faterion/cyfleoedd yn eu hardal leol ac, yn fwy sylfaenol, yn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar Fwrdeistref Sirol Caerffili gyfan.

- 3.19 Yr Aelod Cabinet dros yr Economi a Menter sy'n gyfrifol am bolisi cynllunio, gan gynnwys paratoi'r 2il CDLI Newydd. Mae cyswllt agos â'r Aelod Cabinet, a holl Aelodau eraill y Cyngor, yn rhan hanfodol o broses yr 2il CDLI Newydd. O ganlyniad, cynhelir seminarau Aelodau lle y bo'n briodol, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol yr 2il CDLI Newydd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i; y Strategaeth a Ffefrir, Adneuo a Mabwysiadu. Bydd yr Aelodau'n cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses ac yn cael eu hysbysu cyn pob cam cyfranogi ac ymgynghori.

Cynghorau Cymuned a Thref

- 3.20 Mae gan Gynghorau Cymuned a Thref swyddogaeth hollbwysig hefyd yn dosbarthu gwybodaeth i'r preswylwyr yn eu hardal ar faterion sy'n bwysig yn lleol a byddant yn gyswllt allweddol i gymunedau ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili. Ymgynghorir â Chymunedau Cymuned a Thref ar bob cam o broses yr 2^{il} CDLI Newydd a thrwy eu dulliau cyfathrebu unigol byddant yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r 2^{il} CDLI Newydd mewn cymunedau lleol. Bydd gallu ganddynt hefyd i ddarparu gwybodaeth leol gyfredol, safbwyntiau ar unrhyw gynigion yn eu hardaloedd ac, yn bwysicach, gallant ddarparu manylion am unrhyw uchelgeisiau sydd ganddynt ar gyfer defnyddio tir yn eu cymuned.

Grŵp Rhanddeiliaid Tai

- 3.21 Er mwyn creu llwybr tai y mae'n rhaid ei baratoi i gefnogi'r Cynllun Adneuo, bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy Grŵp Rhanddeiliaid Tai. Bydd hyn yn sicrhau bod amseriad a chyflwyno safleoedd fesul cam yn gadarn ac yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf. Dylai'r Grŵp Rhanddeiliaid gynnwys swyddogion, adeiladwyr tai, tîrfeddianwyr (ac asiantau lle bo'n briodol), Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ymgymerwyr statudol, darparwyr seilwaith a chyrrff eraill fel y bo'n briodol.

Grwpiau Partneriaeth

- 3.22 Mae grwpiau partneriaeth yn gweithredu fel pwyntiau cyswllt unigol i grwpiau o bobl ac felly maent yn bwynt cyswllt pwysig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ehangach wrth baratoi'r 2^{il} CDLI Newydd. Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod camau cynnar cyfranogiad y cyhoedd pan mae trafodaethau strwythuredig yn ddymunol.
- 3.23 Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili, a'i bartneriaid, yn bwysig iawn wrth sicrhau bod yr 2^{il} CDLI Newydd yn alinio gyda'r Cynllun Llesiant. Felly, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfranogi'n weithredol yn y gwaith o baratoi'r cynllun.
- 3.24 Bydd y Tîm Cynllunio Strategol hefyd yn gweithio'n agos gyda Thîm Polisi Corfforaethol y Cyngor, sy'n cefnogi'r prosesau o gyflenwi, cydlynw a gweinyddu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn arwain cyfraniad y Cyngor at y Cynllun Llesiant.

Busnesau, Tîrfeddianwyr, Datblygwyr ac Asiantau

- 3.25 Fel yr amlinellwyd yn gynharach, cynhelir ymgysylltiad helaeth yn ystod pob cam allweddol o broses yr 2^{il} CDLI Newydd. Gwneir ymdrechion i ymgysylltu â'r gymuned fusnes ar gam cynnar, a gellir hwyluso hyn drwy gysylltu â'r Siambrau Masnach unigol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Byddwn yn ymgysylltu hefyd gydag asiantau cynllunio, sy'n gwsmeriaid rheolaidd gwasanaeth cynllunio Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gall unrhyw un wneud cais i'w manylion gael eu cynnwys ar gronfa ddata rhanddeiliaid yr 2^{il} CDLI Newydd (cyfeiriwch at baragraff 3.10 uchod am fanylion). Ystyri'r y bydd tîrfeddianwyr, asiantau a darpar ddatblygwyr, sy'n dymuno cyflwyno tir i'w ystyried ar gyfer datblygiad, wedi darparu eu cydsyniad angenrheidiol a byddant yn cael eu hychwanegu at y gronfa ddata rhanddeiliaid.
- 3.26 Bydd y broses Safleoedd Ymgeisiol yn darparu cyfle i'r rhai sydd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd maent yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer datblygiad yn yr 2^{il} CDLI Newydd. Sefydlwyd methodoleg gyffredinol ar gyfer ystyried safleoedd o'r fath ar draws

rhanbarth De-ddwyrain Cymru er mwyn i awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio eu CDLI diwygiedig priodol. Cynhelir 'Cais am Safleoedd Ymgeisiol' a bydd angen cyflwyno pob safle ymgeisiol drwy ffurflen safonol. Bydd y ffurflen yn cyflwyno'r meini prawf gofynnol er mwyn helpu i asesu addasrwydd safleoedd i'w cynnwys fel dyraniadau posibl yn yr 2^{il} CDLI Newydd. Pennir trothwy ar gyfer derbyn safleoedd ymgeisiol er mwyn sicrhau bod ffocws strategol y cynllun yn cael ei gynnal. Bydd y trothwy hwn yn cael ei ddarparu ar y dechrau er mwyn darparu eglurder ar gyfer y broses ac osgoi gwneud gwaith diangen ar safleoedd a fydd yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn yr 2^{il} CDLI Newydd. Felly, bydd angen cyflwyno pob safle ymgeisiol yn ystod y cam priodol.

Cyrff Ymgynghori Ychwanegol

- 3.27 Mae Atodiad 3 yn darparu rhestr o'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol ynghyd ag adrannau Llywodraeth y DU ac ymgynghoreion eraill. Mae'r ymgynghoreion penodol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff hynny â swyddogaethau penodol sy'n berthnasol i ardal yr 2^{il} CDLI Newydd, e.e. Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Dŵr Cymru. Mae'n rhaid i'r Awdurdod ymgynghori hefyd gydag Adrannau Llywodraeth y DU pan fydd yn ymddangos bod agweddau o'r cynllun yn effeithio ar eu buddiannau hwy. Ymgysylltir â'r cyrff ymgynghori hyn trwy broses gyfan yr 2^{il} CDLI Newydd ym mhob un o'r camau ffurfiol ac anffurfiol, fel y bo'n briodol.

Grwpiau Anodd eu Cyrraedd

- 3.28 Grwpiau anodd eu cyrraedd, a'r rhai y clywir ganddynt yn anaml, yw'r grwpiau hynny nad ydynt wedi cymryd rhan yn draddodiadol yn y broses o baratoi'r cynllun. Felly, bydd angen ymdrech ychwanegol i sicrhau bod y grwpiau hyn yn ymgysylltu ym mhroses yr 2^{il} CDLI Newydd. Bydd angen defnyddio dull gweithredu hyblyg er mwyn ymgysylltu â'r grwpiau hyn, er o fewn paramedrau'r camau cyfranogi/ymgynghori penodol a'r cyfyngiadau o ran adnoddau.
- 3.29 Mae grwpiau anodd eu cyrraedd yn cynnwys:-
- Pobl ifanc a phlant
 - Pobl ag anableddau
 - Pobl hŷn
 - Pobl ag anawsterau dysgu
 - Pobl ddigartref
 - Lleiafrifoedd ethnig
 - Sipsiwn a Theithwyr
- 3.30 Gellir ymgysylltu â'r grwpiau hyn gan ddefnyddio partneriaethau a grwpiau sydd eisoes yn bodoli, pryd bynnag y bo'n bosibl. Er hynny, cydnabyddir mai union egwyddor grŵp anodd ei gyrraedd yw nad ydynt o bosibl yn cyfranogi mewn grwpiau presennol ac felly, mae'n bosibl na fydd yn bosibl cyflawni hyn bob amser. Bydd cyfryngwyr dibynadwy yn cael eu defnyddio hefyd, fel y bo'n briodol, er mwyn casglu safbwyntiau grwpiau penodol o bobl nad oes ganddynt yr hyder i ymgysylltu'n uniongyrchol yn y broses.

Cymorth Cynllunio Cymru

- 3.31 Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn wasanaeth annibynnol sy'n darparu cyngor cynllunio i grwpiau ac unigolion, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig, yn eu helpu i ddeall y system gynllunio a dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal leol. Pan fo'n briodol, byddwn yn gweithio gyda Cymorth Cynllunio ar weithgareddau ymgynghori/hyfforddiant.

Sut y byddwn yn eich cynnwys chi?

- 3.32 Cyhoeddir manylion yr 2^{il} CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu, a'i brosesau a'i gynnydd, ar wefan y cyngor trwy'r broses gyfan. Byddwn yn ceisio rhoi sylw i'r 2^{il} CDLI Newydd ar bob

cam a chyrraedd cymaint o'r gymuned, a rhanddeiliaid eraill, â phosibl, i gynghori pobl ynghylch yr 2^{il} CDLI Newydd a sut y gallant hwy gymryd rhan. Gwneir hyn drwy:

3.33 Gwneir hyn drwy:

- Cyswllt uniongyrchol (h.y. drwy e-bost neu lythyr yn ddelfrydol)
- Dosbarthu taflenni i aelwydydd yn y Fwrdeistref Sirol.
- Drwy ddefnyddio Twitter, a defnyddio'r cyfrif corfforaethol @CaerphillyCBC.
- Drwy Facebook ar dudalen Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig drwy weithdai penodol, sesiynau galw heibio Aelodau ac mewn adroddiadau i gyfarfodydd priodol y Cyngor.
- Bydd holl wybodaeth a dogfennau am yr 2^{il} CDLI Newydd ar gael ar wefan y Cyngor, sy'n cael ei diweddarau'n gyson.
- Adnau dogfennau ym mhencadlys y Cyngor, llyfrgelloedd/Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid lle bo hynny'n bosibl.
- Datganiadau i'r wasg ar gyfer y cyfryngau lleol, pan fydd hynny'n briodol.
- Cynhyrchu dogfennau Cryno Hawdd eu Darllen ar gyfer cyfnodau allweddol proses yr 2^{il} CDLI Newydd.
- Arddangosfeydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio a chyfarfodydd mewn lleoliadau hygyrch a niwtral, a bydd y dull yn ddarostyngedig i Reoliadau a chanllawiau COVID-19.
- Fideos, ymgysylltu rhithwir ac ymgynghori drwy dechnoleg ar y we fel gweminarau.
- Arddangosiadau gwybodaeth gyhoeddus, sesiynau galw heibio a chyfarfodydd mewn lleoliadau hygyrch a niwtral.

3.34 Oherwydd y pandemig COVID-19 bydd swyddogion y Cyngor, lle bo modd, ar gael yn bersonol, yn amodol ar reoliadau a nodir gan y Llywodraeth megis ymbellhau cymdeithasol. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd y Cyngor yn chwilio am ddulliau ymgysylltu priodol eraill megis bod ar gael dros y ffôn ac ar-lein, er mwyn sicrhau y gall y gymuned ymgysylltu'n effeithiol â ni yn y broses.

Sicrhau Consensws

3.35 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau consensws drwy'r dulliau ymgysylltu ac ymgynghori amrywiol a gyflwynir yn y CCC. Gellir ond cyflawni'r broses o sicrhau consensws os yw'r gymuned a phartïon eraill â diddordeb yn derbyn gwybodaeth lawn a'u bod yn cael cyfle i ymgysylltu'n effeithiol trwy broses gyfan yr 2^{il} CDLI Newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod camau cynnar paratoi'r cynllun. Cydnabyddir er hynny, y bydd achlysuron pan na ellir cyflawni consensws a bydd gwahaniaeth barn rhwng partïon penodol. Cynhelir llwybr archwilio clir o benderfyniadau er mwyn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer yr 2^{il} CDLI Newydd yn agored a darperir sicrwydd i'r rhai sy'n anghytuno y bydd y penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd hysbys a chytbwys.

Argaeledd Dogfennau

3.36 Bydd dogfennau'r 2il CDLI Newydd ar gael yn ystod pob un o'r camau perthnasol. Bydd yr holl ddogfennau ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd ffurflenni sylwadau electronig hefyd ar gael yn ystod cyfnodau ymgynghori. Yn ogystal ag argaeledd ar-lein, lle bo hynny'n bosibl ac yn amodol ar y cyfyngiadau COVID-19, bydd y dogfennau hefyd ar gael ar bapur yn y lleoliadau canlynol:

- Tŷ Tredomen, Parc Tredomen, Ystrad Mynach
- Tŷ Penallta; a
- Pob llyfrgell leol/Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid yn y Fwrdeistref Sirol.

- 3.37 Ni fydd copïau papur o ddogfennau yn cael eu hanfon yn ystod proses yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd – byddan nhw ar gael i'r cyhoedd yn y lleoliadau uchod, yn ogystal â bod ar gael yn electronig. Mewn amgylchiadau eithriadol, neu pan nad oes modd trefnu bod y dogfennau ar gael yn y lleoliadau uchod, byddwn ni'n trefnu bod copïau papur ar gael ar gais.

Ymgysylltiad drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn Ddwieithog

- 3.38 Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Gynghorau i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg ar gyfer 2017 – 2020, a bydd gofynion y strategaeth gorfforaethol a Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnal yn ystod pob cam o broses yr 2^{il} CDLI Newydd.
- 3.39 Cynhelir ymgysylltiad dwieithog yn y ffyrdd canlynol:
- Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg a bod angen ateb, anfonir yr ateb yn Gymraeg.
 - Bydd pob llythyr ymgynghori, ffurflenni sylwadau, hysbysiadau cyhoeddus (gan gynnwys hysbysiadau safle) a chylchlythyrau yn ddwieithog.
 - Bydd unrhyw dudalennau ar wefan y Cyngor a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddir ar Twitter yn ddwieithog.
 - Cynhelir unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn ddwieithog pan dderbynnir cais ymlaen llaw. Mae angen hysbysiad ymlaen llaw er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu.
 - Caiff yr 2il CDLI Newydd Mabwysiedig ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.
- 3.40 Mae'n ofynnol cynnal asesiad effaith gadarnhaol, negyddol neu ddim effaith, y bydd y cynigion yn ei chael ar y Gymraeg. Bydd yr 2il CDLI Newydd yn destun arfarniad effaith integredig a fydd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesu'r Effaith ar Iechyd, Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesu'r Effaith ar y Gymraeg, ymhlith eraill.

Yr hyn a ddisgwyliwn gennych chi

- 3.41 Er mwyn sicrhau bod unrhyw sylwadau ar yr 2^{il} CDLI Newydd yn cael eu hystyried, mae'n rhaid eu cyflwyno o fewn yr amserlenni penodedig ac yn y dull penodedig. Mae'r CC yn cyflwyno amserlen y camau perthnasol ac yn darparu canllaw ar pryd yr hoffem i chi gyfrannu. Cyflwynir gwybodaeth fwy manwl yn Rhan 2 ac Atodiad 1. Bydd hyn yn sicrhau bod safbwyntiau unigol yn cael eu hystyried trwy'r broses gyfan.
- 3.42 Mae hefyd yn bwysig eich bod yn hysbysu'r Tîm Cynllunio Strategol os bydd eich manylion cyswllt yn newid yn ystod proses yr 2^{il} CDLI Newydd er mwyn i ni allu darparu gwybodaeth lawn i chi am y cynnydd. O ran y safleoedd ymgeisiol, gall perchnogaeth tir newid yn ystod y broses ac mae'n hollbwysig bod manylion am hyn yn cael eu diweddarau ar wefan y Cyngor er mwyn sicrhau na fydd oedi o ran y cynnydd.

Ymdrin â Sylwadau

- 3.43 Ymdrinnir â sylwadau a dderbynnir o fewn yr amserlenni penodedig i ddilyn llif pob cam o baratoi'r cynllun:
- Caiff y sylwadau eu cofnodi a rhoddir rhif i bob sylw;
 - Anfonir cadarnhad at y sawl a ddarparodd y sylwadau;
 - Cofnodir sylwadau a manylion y sawl a'u hanfonodd;
 - Caiff pob sylw dilys ei ystyried, a chaiff ymatebion eu llunio; a

- Chaiff ymatebion yr Awdurdod Lleol i sylwadau eu cofnodi a'u cyhoeddi yn unol â'r Rheoliadau.

Sylwadau Hwyr

- 3.44 Mae proses yr 2^{il} CDLI Newydd yn ddarostyngedig i gyfnodau ymgynghori/cyfranogi statudol ac anstatudol sydd â chyfnodau diffiniedig ar gyfer derbyn sylwadau. Mae angen anfon sylwadau erbyn dyddiad cau penodedig y camau ymgynghori hyn er mwyn iddynt gael eu hystyried. Ni fydd unrhyw sylwadau a gyflwynir ar ôl y dyddiadau cau yn cael eu hystyried fel rhan o broses yr 2^{il} CDLI Newydd a byddant yn cael eu dosbarthu fel 'heb eu gwneud yn briodol' at ddibenion Archwilio'r 2^{il} CDLI Newydd. Mae'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r 2^{il} CDLI Newydd eisoes yn heriol, a gallai derbyn sylwadau hwyr arwain at oedi pellach, a fyddai'n annerbyniol.

Amserlen a Dulliau Ymgysylltu

- 3.45 Mae'r tablau canlynol yn cyflwyno'r amserlen fanwl ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a'r dulliau ymgysylltu arfaethedig ar gyfer camau allweddol y broses o baratoi'r CDLI. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gallai fod angen ei haddasu i sicrhau bod y gymuned a rhanddeiliaid yn cyfranogi'n briodol ym mhob cam.
- 3.46 Mae'r tablau yn nodi'r camau allweddol canlynol:
- **Camau Diffiniol**
Cyfranogiad Cyn-Adneuo
Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn-Adneuo
Adneuo Cynigion yn Gyhoeddus
 - **Camau Dangosol**
Cyflwyno'r 2^{il} CDLI Newydd i'r Arolygiaeth ei Archwilio
Archwiliad Annibynnol
Cyhoeddi Argymhellion yr Arolygiaeth Gynllunio
Mabwysiadu

CAMAU DIFFINIOL					
Cyfranogiad Cyn-Adneuo (Rheoliadau 14 & 16)					
Cam yn y broses o baratoi'r 2il CDLI Newydd	Diben	Amserlen (pryd?)	Pwy fydd yn cymryd rhan	Sut? Dull Ymgynghori, Dosbarthu a Hysbysu	Adrodd, Dosbarthu a Hysbysu
Cytundeb Cyflenwi	Cyflwyno amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun a'r prosesau a'r dulliau o sicrhau cyfranogiad cymunedol.	Tachwedd 2020 – Gorffennaf 2021	• Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghoreion Cyffredinol • Grŵp Ffocws y CDLI • Aelodau Etholedig • Y cyhoedd • Grwpiau anodd eu cyrraedd • Cyngorau Cymuned a Thref	• E-bost/llythyr • Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • Taflenni i bob aelwyd yn y Fwrdeistref Sirol	• Rhoddir yr holl ddogfennaeth ar wefan y Cyngor
Adolygu a diweddarau'r sylfaen dystiolaeth bresennol	Hysbysu'r gwaith o ddatblygu Strategaeth a fframwaith polisi'r 2 ^{il} CDLI Newydd.	Tachwedd 2020 – Ebrill 2022	• Swyddogion Mewnol • ALI Cyfagos • Cyrff Ymgynghori Ychwanegol • Ymgynghorwyr	• Monitro CDLI • Arolygon Arbenigol/dadansoddi ad casglu data • cyfarfodydd	• Adroddiadau Monitro'r CDLI • Papurau Pwnc • Adroddiadau Arolwg
Cais am Safleoedd Ymgeisiol	Sefydlu'r tir sydd ar gael a pharodrwydd tirfeddianwyr i ryddhau tir i'w ddatblygu er mwyn hysbysu'r broses o nodi safleoedd posibl i'w datblygu.	Ionawr – Awst 2021	Cronfa ddata rhanddeiliaid yr Ymgynghoriad, gan gynnwys: • Tirfeddianwyr • Asiantau • Datblygwyr • Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	• E-bost/llythyr • Gwefan • Cyfryngau cymdeithasol • Taflenni i bob aelwyd yn y Fwrdeistref Sirol	• Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol
Adolygu'r weledigaeth, yr amcanion a'r opsiynau presennol	Datblygu consensws ar opsiynau gan gynnwys lefelau twf a datblygiad gofodol a hysbysu datblygiad y Strategaeth a Ffefrir.	Mai 2021 – Mai 2022	• Aelodau Etholedig • Grŵp Ffocws y CDLI • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus • Fforymau Lleol Presennol • Swyddogion Mewnol • Ymgynghoreion eraill	• Gweithdai • Cyfarfodydd • E-bost/llythyr	• Rhoddir yr holl ddogfennaeth ar wefan y Cyngor
GCI					
Adolygu/Diweddarau llinell sylfaen a fframwaith GCI	Diweddarau'r wybodaeth sylfaenol a'r fframwaith	Gorffennaf – Hydref 2021	• Swyddogion Mewnol • Cyrff Ymgynghori Penodol • ALI Cyfagos	• Cyfarfodydd • E-bost/llythyr	• Adroddiad fel rhan o Adroddiad Cwmpasu'r GC/AAS

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Cytundeb Cyflenwi

Adroddiad Cwmpasu GCI gan gynnwys Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Pholisiau Perthnasol	Cynnwys Ymgynghoreion Statudol yr AAS/GC wrth baratoi'r Adroddiad Cwmpasu	Tachwedd - Rhagfyr 2021	• Swyddogion Mewnol • Cyrff Ymgynghori Penodol • ALI Cyfagos • Ymgynghoreion Statudol yr AAS/GC	• E-bost/llythyr • Gwefan	• Adroddiad yr Ymgynghoriad
---	---	-------------------------	--	--	---

Ymgynghoriad Cyn Adneuo (Rheoliadau 15 ac 16)			—		
Cam yn y broses o baratoi'r 2il CDLI Newydd	Diben	Amserlen (pryd?)	Pwy fydd yn cymryd rhan	Sut? Dull Ymgynghori, Dosbarthu a Hysbysu	Adrodd, Dosbarthu a Hysbysu
Ymgynghoriad Cyhoeddus 6/8 wythnos ar y Strategaeth a Ffefrir ac asesiad o'r sylwadau a dderbyniwyd	Sicrhau bod dogfennau perthnasol ar gael ac yn hygyrch ac yn galluogi unrhyw un i wneud sylwadau am ddogfen cyn-adneuo'r Cyngor. Ystyried a oes angen newid y Strategaeth a'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer yr Ail Gynllun Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg.	Mehefin – Gorffennaf 2022	• Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghoreion Cyffredinol • Grŵp Ffocws y CDLI • Aelodau Etholedig • Y Cyhoedd • Fforymau Lleol Presennol • Grwpiau anodd eu cyrraedd • Cynghorau Cymuned a Thref	• E-bost/llythyr • Cyfryngau Cymdeithasol • Gwefan • Sesiynau/arddangosiadau galw heibio • Lle bo modd, copïau o'r dogfennau cyn-adneuo ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus	• Adroddiad yr Ymgynghoriad a'r argymhellion i'r Cyngor
Cais am ragor o wybodaeth am Safleoedd Ymgeisiol (lle nas cyflwynwyd yn flaenorol)	Nodi safleoedd posibl i'w datblygu a sicrhau gwybodaeth fanwl am safleoedd	Mehefin – Gorffennaf 2022	Cronfa ddata rhanddeiliaid yr ymgynghoriad, gan gynnwys: • Tirfeddianwyr • Asiantau • Datblygwyr • Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	• E-bost/llythyr • Cyfryngau Cymdeithasol • Gwefan	• Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol
GCI					
Ymgynghoriad 6/8 wythnos ar Adroddiad Cwmpasu GCI a'r Adroddiad Cychwynnol Gwerthuso Cynaliadwyedd	Galluogi unrhyw un i wneud sylwadau ar Adroddiad Cwmpasu ac Adroddiad Cychwynnol Gwerthuso Cynaliadwyedd.	Mehefin – Gorffennaf 2022	• Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghoreion Cyffredinol • Grŵp Ffocws y CDLI • Aelodau Etholedig • Y Cyhoedd • Fforymau Lleol Presennol • Grwpiau anodd eu cyrraedd • Cynghorau Cymuned a Thref	• E-bost/llythyr • Cyfryngau Cymdeithasol • Gwefan • Sesiynau/arddangosiadau galw heibio • Lle bo modd, copïau o'r dogfennau cyn-adneuo ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus	• Adroddiad yr Ymgynghoriad a'r argymhellion i'r Cyngor

Adnau Statudol o Gynigion (Rheoliad 17)			—		
Cam yn y broses o baratoi'r 2il CDLI Newydd	Diben	Amserlen (pryd?)	Pwy fydd yn cymryd rhan	Sut? Dull Ymgynghori, Dosbarthu a Hysbysu	Adrodd, Dosbarthu a Hysbysu
Ymarfer Ymgynghori Adnau 6/8 wythnos	Sicrhau bod y dogfennau perthnasol ar gael ac yn hygyrch ac yn galluogi unrhyw un i wneud sylwadau ynghylch unrhyw bolisiâu a chynigion yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo.	Chwefror – Mawrth 2023	• Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghoreion Cyffredinol • Grŵp Ffocws y CDLI • Aelodau etholedig • Y cyhoedd • Fforymau Lleol presennol • Grwpiau anodd eu cyrraedd • Cynghorau Cymuned a Thref	• E-bost/llythyr • Cyfryngau Cymdeithasol • Gwefan • Sesiynau/arddangosiadau galw heibio • Lle bo modd, copïau o'r dogfennau cyn-adneuo ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus	• Copi caled o'r sylwadau ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a chopïau ar gael ar y wefan. • Sylwadau i'w cynnwys mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad a fydd ar gael ar y wefan, • Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru i'w hystyried gan yr Arolygydd
GCI					
Adroddiad Amgylcheddol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Ymgynghori ar ganfyddiadau'r GCI a'r ARhC	Chwefror – Mawrth 2023	• Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghoreion Cyffredinol • Grŵp Ffocws y CDLI • Aelodau etholedig • Y cyhoedd • Fforymau Lleol presennol • Grwpiau anodd eu cyrraedd • Cynghorau Cymuned a Thref	• E-bost/llythyr • Cyfryngau Cymdeithasol • Gwefan • Sesiynau/arddangosiadau galw heibio • Lle bo modd, copïau o'r dogfennau cyn-adneuo ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus	• Copi caled o'r sylwadau ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a chopïau ar gael ar y wefan. • Sylwadau i'w cynnwys mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad a fydd ar gael ar y wefan, • Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru i'w hystyried gan yr Arolygydd

CAMAU DANGOSOL					
Cyflwyno'r 2il CDLI Newydd i'r Arolygiaeth ar gyfer Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 22)					
Cam yn y broses o baratoi'r 2il CDLI Newydd	Diben	Amserlen (pryd?)	Pwy fydd yn cymryd rhan	Sut? Dull Ymgynghori, Dosbarthu a Hysbysu	Adrodd, Dosbarthu a Hysbysu
Ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen er mwyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru ei Archwilio	Ystyried y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol a darparu ymateb iddyn nhw y gall yr Arolygydd eu hystyried yn yr Arholiad. Rhoi gwybod i'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb am gyflwyno'r Ail Gynllun Datblygu Lleol a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig, a dogfennau cysylltiedig, i Lywodraeth Cymru. Galluogi archwilio'r Ail Gynllun Datblygu Lleol.	Dangosol Chwefror 2024	• Cronfa ddata rhanddeiliaid yr ymgynghoriad • Aelodau Etholedig • Swyddogion Mewnol	• E-bost/llythyr • Cyfryngau Cymdeithasol • Gwefan • Lle bo modd, copïau o'r dogfennau cyn-adneuo ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus	

Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23)			—		
Cam yn y broses o baratoi'r 2il CDLI Newydd	Diben	Amserlen (pryd?)	Pwy fydd yn cymryd rhan	Sut? Dull Ymgynghori, Dosbarthu a Hysbysu	Adrodd, Dosbarthu a Hysbysu
Hysbysiad o Archwiliad Annibynnol	Sicrhau bod pob unigolyn/sefydliad â diddordeb yn ymwybodol bod Archwiliad Annibynnol yn cael ei gynnal o'r 2 ^{il} CDLI Newydd.	Dangosol Mawrth - Ebrill 2024	• Cronfa ddata rhanddeiliad • Aelodau Etholedig • Y Cyhoedd	• Rhoddir hysbysiad ffurfiol drwy e-bost/llythyr i unrhyw berson sydd wedi gwneud sylwadau (a heb eu tynnu'n ôl). • Rhoddir yr hysbysiad yn y wasg leol ac ar y wefan.	Dim
Cyfarfod Cyn-Archwilio	Cynghori ar y gweithdrefnau a'r fformat archwilio.	Dangosol Mai – Gorffennaf 2024	• Cronfa ddata rhanddeiliad yr ymgynghoriad • Aelodau Etholedig • Y Cyhoedd	• E-bost/llythyr at bob Cynrychiolydd • Hysbysiad ar y wefan	• Datganiadau a Phapurau Tir Cyffredin yn ôl yr angen
Ystyried yr holl sylwadau i'r cynllun gan yr Arolygydd Cynllunio annibynnol a benodwyd i ystyried y dystiolaeth	Darparu barn gynllunio ddiudedd ar gadernid yr 2^{il} CDLI Newydd, a'r sylwadau a wnaed mewn cysylltiad ag ef. Ymgymryd ag unrhyw waith pellach sy'n ofynnol gan yr Arolygydd.	Dangosol Gorffennaf – Hydref 2024	• Yr holl unigolion a sefydliadau â diddordeb sydd wedi gwneud sylwadau yng Ngham Adneuo'r 2^{il} CDLI Newydd.	• Trafodaethau bord gron • Gwrandawriadau ffurfiol (os gwneir cais amdanynt a'u bod wedi'u cymeradwyo gan Arolygydd) • Sylwadau ysgrifenedig.	• Adroddiad yr Arolygydd

Publication of the Planning Inspector's Recommendations (Regulation 24)			—		
Cam yn y broses o baratoi'r 2il CDLI Newydd	Diben	Amserlen (pryd?)	Pwy fydd yn cymryd rhan	Sut? Dull Ymgynghori, Dosbarthu a Hysbysu	Adrodd, Dosbarthu a Hysbysu
Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd	Sicrhau bod Adroddiad yr Arolygydd ar gael i'r cyhoedd.	Dangosol Tachwedd 2024	• Cronfa ddata rhanddeiliaid yr ymgynghoriad • Aelodau Etholedig • Y cyhoedd	• Dogfennau'r 2^{il} CDLI Newydd gan gynnwys y datganiad mabwysiadu a sicrhau bod yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd ar gael ar y wefan. • Hysbysiad ffurfiol a roddir drwy e-bost/llythyr i Gyrff ymgynghori ac Aelodau Etholedig penodol. • Lle bo modd bydd copïau o'r holl ddogfennau perthnasol ar gael yn swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus. • Datganiadau i'r Wasg.	Dim
GCI					
Cyhoeddi'r Adroddiad Amgylcheddol yn ffurfiol	Nodi unrhyw addasiadau sy'n deillio o'r Archwiliad	Dangosol Tachwedd 2024	• Cronfa ddata rhanddeiliaid yr ymgynghoriad • Aelodau Etholedig • Y cyhoedd	• Dogfennau'r 2^{il} CDLI Newydd gan gynnwys y datganiad mabwysiadu a sicrhau bod yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd ar gael ar y wefan.	Dim

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Cytundeb Cyflenwi

				• Hysbysiad ffurfiol a roddir drwy e-bost/llythyr i Gyrff ymgynghori ac Aelodau Etholedig penodol. • Lle bo modd bydd copïau o'r holl ddogfennau perthnasol ar gael yn swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus. • Datganiadau i'r Wasg	
--	--	--	--	---	--

Mabwysiadu (Rheoliad 25)			—		
Cam yn y broses o baratoi'r 2il CDLI Newydd	Diben	Amserlen (pryd?)	Pwy fydd yn cymryd rhan	Sut? Dull Ymgynghori, Dosbarthu a Hysbysu	Adrodd, Dosbarthu a Hysbysu
Cyhoeddi Datganiad Mabwysiadu'r GCI	Nodi sut mae'r 2 ^{il} CDLI Mabwysiedig wedi ystyried canfyddiadau'r GCI.	Dangosol Rhagfyr 2024	• Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghoreion Cyffredinol • Grŵp Ffocws y CDLI • Aelodau Etholedig • Y Cyhoedd	• Dogfennau'r 2^{il} CDLI Newydd gan gynnwys y datganiad mabwysiadu a sicrhau bod yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd ar gael ar y wefan. • Hysbysiad ffurfiol a roddir drwy e-bost/llythyr i Gyrff ymgynghori ac Aelodau Etholedig penodol. • Lle bo modd bydd copïau o'r holl ddogfennau perthnasol ar gael yn swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus. • Datganiadau i'r Wasg.	Dim
ISA					
Publication of ISA Adoption Statement	To set out how the Adopted 2RLDP has taken account of the findings of the ISA	Dangosol Rhagfyr 2024	• Cyrff Ymgynghori Penodol • Ymgynghoreion Cyffredinol • Grŵp Ffocws y CDLI • Aelodau Etholedig • Y Cyhoedd	• Dogfennau'r 2^{il} CDLI Newydd gan gynnwys y datganiad mabwysiadu a sicrhau bod yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd ar gael ar y wefan. • Hysbysiad ffurfiol a roddir drwy e-bost/llythyr i Gyrff	Dim

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Cytundeb Cyflenwi

				ymgyngori ac Aelodau Etholedig penodol. • Lle bo modd bydd copïau o'r holl ddogfennau perthnasol ar gael yn swyddfeydd y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus. • Datganiadau i'r Wasg.	
--	--	--	--	--	--

Manylion Cyswllt

- 3.45 Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan y Cyngor yn:

www.caerffili.gov.uk/CDLI/CDLI2

- 3.46 Neu, i'r rhai na allant gael mynediad at wefan y Cyngor, gallwch gael gwybodaeth bellach drwy gysylltu â'r canlynol:

E-bost: cynllundatblygulleol@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 866777

Tîm Cynllunio Strategol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Tredomen
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7WF

- 3.36 Croesewir sylwadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Atodiad 1 - Amserlen

[illegible]

[illegible]

Atodiad 2 – Asesu Risg

Risg	Effaith bosibl	Lliniaru	Tebygolrwydd	Effaith
PWYSAU LLEOL				
Oedi cyn i geisiadau mawr gael eu cyflwyno hyd nes y mabwysiedir 2il CDLI Newydd.	Er y bydd y CDLI Mabwysiedig yn parhau mewn grym hyd nes y caiff yr 2il CDLL newydd ei fabwysiadu, bydd hyn yn oedi ceisiadau mawr rhag cael eu cyflwyno. Bydd hyn yn effeithio ar allu'r Cyngor i fynd i'r afael â/cyflawni materion ac amcanion yr 2il CDLL newydd ac yn rhoi pwysau ar gyflawni ym maes tai a chyflogaeth.	Bydd cynnydd gyda'r 2il CDLI Newydd mewn modd amserol yn sicrhau bod gan y Cyngor 2il CDLI Newydd wedi'i fabwysiadu cyn gynted â phosibl, gan leihau'r goblygiadau negyddol sy'n gysylltiedig â'r oedi cyn i geisiadau mawr gael eu cyflwyno.		
Newid yn yr adnoddau staff sydd ar gael i baratoi'r CDLI diwygiedig.	Llithriad yn y rhaglen	Sicrhau bod proses y CDLI diwygiedig yn aros yn flaenoriaeth gorfforaethol ar y lefel uchaf.		
Trosiant staff mewn tîm bach	Llithriad yn y rhaglen	Ystyried adnoddau ychwanegol (gan gynnwys cymorth gan adrannau eraill yn y Cyngor) a sicrhau strwythur cadarn.		
Gostyngiad a diffyg mewn adnoddau ariannol	Llithriad yn y rhaglen	Sicrhau bod proses baratoi'r cynllun wedi'i chostio'n ddigonol gyda chapasiti mewnol ar gyfer costau annisgwyl.		
Cylch adrodd am benderfyniadau'r Cyngor	Llithriad yn y rhaglen	Symleiddio gweithdrefnau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod yr amserlen yn realistig.		
Newid Gwleidyddol/ Etholiadau	Llithriad yn y rhaglen	Hyfforddiant cynnar i aelodau		
Diffyg cymorth gan swyddogion/adrannau eraill i gynhyrchu'r sylfaen dystiolaeth	Llithriad yn y rhaglen	Sicrhau cefnogaeth ledled y sefydliad o'r broses cynllunio a'r amserlen o'r cychwyn cyntaf.		
Oedi wrth gyfieithu, argraffu a chynhyrchu.	Llithriad yn y rhaglen	Ystyried adnoddau ychwanegol i gyflawni'r broses yn fewnol		
Gwybodaeth annigonol i ymgymryd ag Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol	Llithriad yn y rhaglen	Nodi a rheoli disgwyliadau cyrff ymgynghori		
Goblygiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig/ yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar strategaeth/cynigion y cynllun	Llithriad yn y rhaglen	Sicrhau bod y broses wedi'i hintegreiddio'n llawn â gwaith paratoi'r CDLI		
Nifer fawr a/neu lefelau sylweddol iawn o wrthwynebiadau i gynigion e.e. dyraniadau safleoedd	Llithriad yn y rhaglen. Ni ellir cyflwyno cynlluniau heb wneud gwaith sylweddol.	Sicrhau cyswllt agos a chynnwys y gymuned, cyrff statudol a rhanddeiliaid yn gynnar/yn barhaus drwy gydol proses paratoi'r cynllun		
Cynllun yn methu prawf ‘cadernid’	Ni ellir mabwysiadu cynllun heb gryn dipyn o waith ychwanegol.	Sicrhau bod y cynllun a chynnwys y gymuned yn ‘gadarn’. Cyswllt agos ag Is-adran Cynllunio Llywodraeth Cymru.		
Her gyfreithiol	Llithriad yn y rhaglen. Diddymu'r CDLI mabwysiedig.	Sicrhau gwybodaeth dda o ofynion statudol i sicrhau cydymffurfio		
Cyfyngiadau symud pellach oherwydd COVID-19	Diffyg cydymffurfio â CCC ac amserlen.	Mae staff yn gallu gweithio gartref a byddai ymgynghori ar-lein yn dal yn bosibl.		
Cynnal ymgynghoriad yn ystod COVID-19.	Diogelwch y staff. Diffyg cydymffurfio	Sicrhau bod digwyddiadau ymgynghori'n cael eu		

	â CCC ac amserlen.	hasesu o ran risg. Adolygu'r CC yn rheolaidd ac ymdrechu i addasu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ymgynghori effeithiol.		
--	--------------------	--	--	--

MATERION CENEDLAETHOL/ RHANBARTHOL				
Gofynion ychwanegol sy'n codi o ddeddfwriaeth newydd/canllawiau cenedlaethol e.e. Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig a Llawlyfr y CDLI	Llithriad yn y rhaglen	Monitro deddfwriaeth/ canllawiau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb i newidiadau cyn gynted â phosibl.	Tebygolrwydd sylweddol	Effaith sylweddol
Cyfranogi wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol	Llithriad yn y rhaglen. Goblygiadau adnoddau oherwydd nad yw hyd a lled y mewnbwn i'r Cynllun Datblygu Strategol yn hysbys ar hyn o bryd.	Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gynorthwyo proses y Cynllun Datblygu Strategol a sicrhau cymorth corfforaethol i broses y Cynllun Datblygu Strategol a'r amserlen o'r cychwyn cyntaf.	Tebygolrwydd sylweddol	Effaith ganolig
Arolygiaeth Gynllunio yn methu â chyrhaedd y dyddiadau targed	Archwiliad a/neu adroddiad yn cael ei ohirio.	Cynnal cysylltiad agos â'r Arolygiaeth Gynllunio i sicrhau rhybudd cynnar o unrhyw broblemau posibl	Tebygolrwydd canolig	Effaith sylweddol
Angen diwygio'r cynllun sy'n dod i'r amlwg i gyd-fynd â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg	Llithriad yn y rhaglen	Sicrhau cyfranogiad yng nghynnydd gwaith rhanbarthol. Cadw i fyny â chynnydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	Tebygolrwydd canolig	Effaith ganolig

Atodiad 3 – Rhestr o Gyrff Ymgynghori

Cyrff Ymgynghori Penodol fel y'u diffinnir yn Rheoliad 2 y CDLI (gan gynnwys Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig):

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori penodol canlynol ar bob cam wrth baratoi'r CDLI.

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Network Rail Infrastructure Ltd
- Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Gweithredwyr Telathrebu – EE, Vodafone a O2, BT, Virgin Media, Cymdeithas y Gweithredwyr Ffonau Symudol
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Trwyddedeion Nwy a Thrydan – National Grid, Wales & West Utilities, Western Power Distribution, British Gas, SSE
- Ymgymrwyr Carthffosiaeth a Dŵr – Dŵr Cymru Welsh Water
- Yr Adran Drafnidiaeth (gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol am swyddogaethau a arferid yn flaenorol gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol)
- Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig – Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
- Y Swyddfa Gartref
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- CADW

Awdurdodau cyfagos ac awdurdodau lleol eraill ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd:

- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Fynwy
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cynghorau cymuned a thref lleol

- Cyngor Cymuned Argoed
- Cyngor Cymuned Bedwas, Tretomos a Machen
- Cyngor Cymuned Cwm Aber
- Cyngor Cymuned Cwm Darran
- Cyngor Cymuned Draethen, Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri
- Cyngor Cymuned Dwyrain Rhisga
- Cyngor Cymuned Gelligaer
- Cyngor Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant
- Cyngor Cymuned Maes-y-cwmwr
- Cyngor Cymuned Nelson
- Cyngor Cymuned Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn
- Cyngor Cymuned Rhymni
- Cyngor Cymuned Tredegar Newydd
- Cyngor Cymuned y Fan
- Cyngor Tref Bargod
- Cyngor Tref Caerffili
- Cyngor Tref Coed Duon
- Cyngor Tref Rhisga

Cynghorau cymuned a thref cyfagos

- Cyngor Cymuned Bedlinog
- Cyngor Cymuned Cwmbrân
- Cyngor Cymuned Graig
- Cyngor Cymuned Ffynnon Taf
- Cyngor Cymuned Henllys
- Cyngor Cymuned Llaneirwg
- Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-fedw
- Cyngor Cymuned Llys-faen
- Cyngor Cymuned Tongwynlais
- Cyngor Cymuned Tŷ-du
- Cyngor Tref Abertyleri a Llanhilledd
- Cyngor Tref Pontypridd
- Cyngor Tref Tredegar

Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori cyffredinol canlynol, lle bo hynny'n briodol, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gellir ychwanegu ati fel sy'n briodol:

Cyrff Gwirfoddol y mae eu gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal yr awdurdod:

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
- Rhwydwaith Rhieni Caerffili
- Fforwm 50+ Caerffili

Sefydliadau Cydraddoldeb:

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau oedran yn ardal yr awdurdod:

- Age Cymru
- Fforwm Ieuencid Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn ardal yr awdurdod:

- Action on Hearing Loss Cymru
- Anabledd Cymru
- British Deaf Association (BDA)
- Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
- Cyngor Cymru i'r Deillion
- Cymdeithas Strôc
- Changing Faces
- Deafblind Cymru
- Disability Can Do
- Grŵp Mynediad Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Gwasanaeth Nam ar y Clyw Gwent
- Gwasanaeth Nam ar y Golwg Gwent
- Mencap Cymru
- Pobl yn Gyntaf Caerffili
- Anabledd Dysgu Cymru

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol yn ardal yr awdurdod:

- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru
- Race Equality First
- Travelling Ahead
- The Showmen's Guild of Great Britain
- Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd

Cyrff sy'n cynrychioli'r buddiannau mewn gwahanol grwpiau crefyddol yn ardal yr awdurdod:

- Byddin yr Iachawdwriaeth
- Canolfan Gristnogol Siloh
- Cardiff Buddhist Centre
- Cyngor Mwslemiaid Cymru
- Mudiad Efengylaidd Cymru
- Neuadd y Deyrnas Tystion Jehofa
- UK Islamic Mission
- Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
- Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb Bedyddwyr Cymru

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn ardal yr awdurdod:

- Stonewall Cymru
- Bi Cymru Wales
- Grŵp Enfys
- Umbrella Gwent
- Guys and Gals

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n cyflawni busnes yn ardal yr awdurdod:

- Clwb Busnes Caerffili
- Gyrfa Cymru
- Busnes Cymru (Canolfan Ranbarthol De Cymru)
- Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru
- Canolfan Arloesi Menter Cymru

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr awdurdod:

- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg–Gwent
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
- Y Gymdeithas Henebion

Bodies which represent the interests of Welsh language in the authority's area:

- Menter Iaith Caerffili
- RhAG – Rhieni dros Addysg Gymraeg
- Canolfan Gymraeg i Oedolion @ Coleg Gwent
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Cymraeg for Kids
- Yr Urdd
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerffili
- Fforwm Iaith Gymraeg Caerffili

Ymgynghoreion eraill:

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r ymgynghoreion eraill canlynol, lle bo hynny'n briodol, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gellir ychwanegu ati fel sy'n briodol:

- Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru
- Bus Users Cymru
- Coed Cadw
- Coed Cymru
- Coleg Gwent
- Coleg y Cymoedd
- Crisis
- Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas Ceffylau Prydain
- Cymdeithas Cludiant Cymunedol
- Cymdeithas Mannau Agored
- Cymorth Cynllunio Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Grŵp Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd
- Gwasanaethau Prisiwr Ardal
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Meysydd Chwarae Cymru
- Road Haulage Association Ltd
- RSPB Cymru
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.
- Sefydliad Rheoli Siartredig Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Sefydliad Tai Siartredig Cymru
- Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil
- Shelter Cymru
- Stagecoach
- Sustrans
- Trafnidiaeth Cymru
- The Georgian Group
- Un Llais Cymru
- Uwch Ranbarth Twristiaeth
- WWF Cymru
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
- Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru
- Ymddiriedolaeth Natur
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Yr Arolygiaeth Gynllunio
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ruperra Conservation Preservation Trust

Cymdeithasau Tai

Adeiladwyr Tai Lleol

Ymgynghorwyr Cynllunio ac Asiantau Cynllunio Lleol

Gwleidyddol gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad Lleol ac Aelodau Seneddol